

Datblygu Gweithlu Oncoleg Anfeddygol Cynaliadwy i Gymru

Astudiaeth Achos - Dull Cynllunio Gweithlu ar sail llwybr claf - Tîm triniaeth Safle-benodol yr Ysgyfaint, Canolfan Canser Felindre

Rhagarweiniad

Roedd y gwaith hwn yn rhan o broject ar y cyd rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gyda chefnogaeth Rhwydwaith Canser Cymru.

Nod y prosiect yw cefnogi'r gwaith o gyflawni'r llwybr cancer 62 diwrnod trwy:

- Darparu argymhellion ynghylch ffyrdd o wella'r bylchau o ran capasiti'r gweithlu.
- Darparu methodoleg ac offer i'r gweithlu i'w defnyddio wrth gynllunio gofynion y gweithlu ar gyfer llwybrau cancer
- Ymgysylltu â staff allweddol wrth feddwl/dylunio gweithlu cynaliadwy i'r dyfodol

Llwyddiant yn y Dyfodol

Gweithlu cynaliadwy i gyflawni'r canlynol:-

- Lleihau amseroedd aros i wella canlyniadau, cyfraddau goroesi, Ansawdd Bywyd a phrofiad drwy ddarparu gofal o safon uchel yn gyson.
- Gwella iechyd a lles staff
- Y gallu i ddenu a chadw'r talent gorau.

Sefydlodd y Bwrdd Project Oncoleg Anfeddygol ddau grŵp â chylch gwaith o dreialu dull cynllunio gweithlu sy'n seiliedig ar lwybr y claf, â ffocws penodol ar ganfod 'argymhellion arfer gorau' ac awgrymiadau i wella, datblygu ac ail-lunio er mwyn datblygu gweithlu cynaliadwy ar gyfer oncoleg anfeddygol. Grŵp penodol yr astudiaeth achos hon oedd y Tîm Ysgyfaint Penodol i Safle Canolfan Canser Felindre (CCF).

Roedd cwmpas y gwaith yn cynnwys cleifion newydd¹ a chlinigau triniaeth gwrth-ganser systemig (SACT) a drefnwyd ar gyfer cleifion â chanser yr ysgyfaint. Nid oedd ein gwaith yn cynnwys y llwybr diagnostig (sydd fel rheol yn cael ei arwain gan dimau resbiradol Byrddau Iechyd).

¹ h.y. yr apwyntiad cyntaf gyda'r oncolegydd sy'n eu trin

Sefyllfa Bresennol

Mae'r opsiynau triniaeth i gleifion sy'n cael therapi systemig ar gyfer canser yr ysgyfaint wedi tyfu'n enfawr o 1,376 o gleifion a fu'n bresennol i gael SACT mewnwythiennol yn 2016/17 o gymharu â 1,669 o gleifion yn 2020/21². Mae'n werth nodi bod y pandemig Covid hefyd wedi effeithio ar ffigurau 2020/21 gan leihau'r niferoedd sy'n defnyddio SACT ar gyfer canser yr ysgyfaint, felly mae disgwyl cynnydd pellach yn y galw wrth i wasanaethau gael eu hadfer. Mae hyn, yn ogystal â'r ffaith bod mwy fyth o driniaethau newydd ar gael, wedi rhoi straen mawr ar dimau clinigol sy'n ymateb i'r galw cynyddol hwn dan amgylchiadau anodd, yn enwedig o ystyried effaith barhaus COVID-19 ar y gweithlu.

Mae radiotherapi (sydd hefyd yn un o'r triniaethau diffiniol cyntaf i gael eu defnyddio'n aml mewn cleifion â chanser yr ysgyfaint) hefyd yn mynd yn fwy a mwy cymhleth; mae metrigau newydd yn dod i rym er mwyn gwella ansawdd ac amseroldeb³.

Hefyd, ceir angen clir, sy'n cynyddu, am Weithlu cynaliadwy sydd wedi'i gynllunio i ddarparu gwasanaethau cadarn o safon uchel 52 wythnos y flwyddyn, yn enwedig mewn wythnosau pan fydd gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc yn digwydd ac yn ystod cyfnodau gwyliau traddodiadol.

Ein Dulliau Gweithio

Roedd ein dulliau o ymgymryd â'r gwaith yn seiliedig ar ddulliau cydweithredol yn gweithio o'r gwaelod i fyny, gan gynnwys yr holl Dîm triniaeth Safle-benodol yr Ysgyfaint i ddatblygu llwybr y claf, gan gynnwys 2 weithdy hanner diwrnod, ymarfer casglu data manwl ar sail clinigau i gwmpasu dros 150 o gleifion, yn ogystal â thrafodaethau dilynol ac ymgysylltu drwy e-bost i ddatblygu'r llwybr ac edrych ar y cyfleoedd, y rhwystrau a'r heriau sy'n gysylltiedig â datblygu gweithlu oncoleg anfeddygol gynaliadwy ar gyfer y Tîm triniaeth Safle-benodol yr Ysgyfaint.



Yr hyn a ddysgwyd

Rydym yn wynebu heriau mawr gan fod y galw cynyddol am wasanaethau, ynghyd â chymhlethdod triniaeth, yn drech na'r capasiti. Gall hyn gael effaith sylweddol ar ofal, ansawdd, diogelwch a phrofiad i gleifion a bydd hefyd yn debygol iawn o effeithio ar les staff a'u recriwtio a'u cadw. Os na awn ati'n weithredol ac ar frys i ddatblygu'r tîm cywir o bobl, yn gweithio yn y ffordd iawn i ateb y galw hwn, bydd y broblem yn gwaethygu eto.

Mae angen gwella capasiti'r timau sy'n darparu gofal clinigol i gleifion â chanser yr ysgyfaint ar fyrder – o ran sicrhau bod gennym y nifer cywir o staff o bob grŵp proffesiynol, ar gael yn y

² DS nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys triniaethau i'w cymryd drwy'r geg

³ E.e. adolygiad cymheiriaid ar gyfer RT Radical a metrigau'r Is-bwyllgor Oncoleg Glinigol ar gyfer radiotherapi lliniarol a radical

mannau cywir, a gwella cyfleusterau/systemau er mwyn gallu gweithio'n fwy effeithiol⁴ ac archwilio rolau newydd i'w cefnogi. Drwy hyn, gallwn ddefnyddio sgiliau staff i'r eithaf yn unol â Gofal Iechyd Darbodus. Hefyd, mae angen cynllunio amser i ffwrdd o ofal clinigol rheng flaen i staff i gyflawni rolau hanfodol megis ymchwil, arweinyddiaeth, gwelliant ac addysg. Mae'r rolau hyn yn hanfodol er mwyn i wasanaethau clinigol fod yn gynaliadwy yn y tymor hirach, ac er mwyn lles y staff.

Yr hyn y gallwn ei wneud

Yr hyn y mae angen i ni weithio arno yn CCF

- ▶ Gweithio tuag at newid prosesau trefnu clinigau i ganiatáu digon o amser i ofal cleifion a'r holl dasgau dan sylw
- ▶ Gweithio tuag at wneud yn siŵr bod ein gweithlu'n cael ei gefnogi i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol
- ▶ Ail-lunio ein gweithlu i fod yn fodel seiliedig ar dîm gyda chymorth, systemau, cyfleusterau a niferoedd staff sy'n briodol i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol 52 wythnos y flwyddyn.
- ▶ Mynd ati i gynllunio i ddatblygu triniaethau newydd, gan sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gyflawni hyn
- ▶ Gwneud gwaith tebyg i dimau canser eraill sy'n wynebu heriau tebyg.

Yr hyn y mae angen i ni weithio arno ar y cyd

- ▶ Adolygiad o broses y Tîm Amlddisgyblaethol gan gynnwys sut y gallwn fynd ati i olrhain cleifion hyd at eu hapwyntiad oncoleg cyntaf/dyddiad dechrau eu triniaeth
- ▶ Adolygiad Cenedlaethol o rôl y CNS - gan gynnwys hyfforddiant, a datblygiad gyrfa
- ▶ Datblygu rolau Ymarferwr Uwch ar gyfer therapïau ledled Cymru – gan gynnwys hyfforddiant a chefnogaeth barhaus, gyda chyfleoedd clir ar gyfer datblygiad pellach
- ▶ Archwilio/datblygu rolau newydd ym maes oncoleg anfeddygol e.e. Cymdeithion Meddygol; Rolau Llywio a Chydlynwyr i helpu i gydlynw, cynllunio a chefnogi cleifion

Yr hyn a aeth yn dda

Bu staff clinigol a staff allweddol eraill o amrywiaeth eang o rolau yng Nghanolfan Canser Felindre yn chwarae rhan weithredol wrth gasglu data mewn clinigau ac yn ystod y ddau weithdy. Parhaodd yr ymgysylltiad hwn a'r awydd i ddatblygu llwybr y claf/datblygu'r gweithlu drwy gydol y pandemig COVID-19 a chafwyd adborth gan staff yn ystod yr ymgysylltiad i ddweud eu bod yn teimlo bod y gwaith hwn yn bwysig iawn ac yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan.

Er bod y ffocws ar atgyfeirio cleifion newydd/adolygu mewn clinig, roedd ein gwaith hefyd yn cynnwys rheoli clinigau SACT/baich gwaith cleifion yn fwy cyffredinol, gan gynnwys gwybodaeth am gleifion sy'n cael triniaethau 2^{il}/3^{ydd} llinell sy'n ychwanegu at gymhlethdod darparu'r gwasanaeth.

Mae Felindre hefyd wedi cydweithio'n agos â chydweithwyr yn y ddwy Ganolfan Canser arall yng Nghymru ac wedi mynychu nifer o weithdai ar y cyd. Roedd y gweithdai hyn yn cynnwys edrych ar y cyfleoedd, y rhwystrau a'r heriau sy'n gysylltiedig â datblygu gweithlu oncoleg anfeddygol gynaliadwy i Gymru. Edrychwyd hefyd ar ffyrdd newydd o weithio a dysgu o'r

⁴ Mae diffyg effeithlonrwydd yn effeithio ar y gweithlu gan fod tasgau'n cymryd mwy o amser neu bobl yn datblygu 'datrysiadau' unigol sydd yna'n ennill eu plwyf.

pandemig, trawsnewid digidol, a datblygu allbynnau allweddol y Project; gyda'i gilydd, rhoddodd hyn nifer o syniadau posibl i gydweithwyr ynghylch sut i ddatblygu gweithlu oncoleg yn y dyfodol a fydd yn aros yn gynaliadwy wrth i dwf barhau.

Yr hyn a allai fod wedi mynd yn well

Codwyd nifer o faterion ehangach sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar y gweithlu, e.e. defnyddio nifer o wahanol systemau TG, nad oedd modd eu harchwilio'n llawn drwy'r gwaith hwn gan eu bod y tu allan i gwmpas y Project hwn. Bydd angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn.

Yr hyn y gallem ei wneud yn well y tro nesaf

Pe bai projectau tebyg yn cael eu cynnal yn y dyfodol, dylai'r project geisio sefydlu llwybr claf 'safon aur' yn ogystal â'r llwybr presennol i gleifion. Byddai hyn yn helpu i ganfod bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir, a hefyd yn helpu i symud y ffocws tuag at edrych ar y sgiliau gofynnol, yn hytrach nag edrych ar y staff sy'n gwneud y gwaith ar hyn o bryd ac yn darparu'r cyfle i gael trafodaeth agored am ffyrdd newydd o weithio. Er bod hyn wedi digwydd i ryw raddau yn ystod y gweithdai, yn aml roedd trafodaethau'n troi'n ôl at ffocysu ar y rôl o wneud y dasg ar hyn o bryd (oherwydd y pwysau ar wasanaethau ar hyn o bryd), yn hytrach na'r cyfleoedd yn seiliedig ar y sgiliau sydd eu hangen yn unig.

Er ei fod y tu hwnt i gwmpas y darn hwn o waith, ni ddylid diystyru'r amser sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau 'dilynol' ar ôl triniaeth weithredol, a dylid cynnwys hyn mewn gwaith ar y llwybr yn y dyfodol. Gall apwyntiadau dilynol gymryd llawer o amser clinigol ac o ystyried prinder staff oncoleg medrus, mae treulio amser ar apwyntiadau dilynol (sydd weithiau'n fwy cyffredin) yn golygu na ellir treulio amser yn gwneud gweithgareddau clinigol mwy arbenigol megis adolygu cleifion newydd, darparu SACT neu reoli cleifion mwy cymhleth sydd ddim yn cael triniaeth weithredol. Roedd ffyrdd newydd o gynnal apwyntiadau dilynol yn faes lle canfuwyd cyfleoedd pellach i ail-lunio'r gweithlu, ond ni chafodd hyn ei archwilio'n fanwl.

Byddai ehangu'r cwmpas allan o'r ganolfan canser hefyd o fudd i waith y dyfodol. Codwyd nifer o faterion yn y llwybr ehangach na all darparwyr gofal trydyddol eu datrys. Mae angen ymgysylltu ar draws y llwybr i gyd gan gynnwys mewnbwn gan ofal Cynradd ac Eilaidd, timau diagnostig, gofal Lliniarol, a Chleifion.